**Stori 3 – Gwrthododd Ymladd – Donald Saunders**
**Cyfyng-gyngor y Tangnefeddwr – Wynebu Canlyniadau Penderfyniadau**

Yn y stori yma cofia Donald Saunders am ei dad a gofrestrodd yn Wrthwynebydd Cydwybodol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r stori'n pwysleisio canlyniadau'r penderfyniad yma i dad Donald ac i'w deulu, a oedd yn nodweddiadol o'r driniaeth a gâi'r rheini oedd yn gwrthod cydymffurfio â'r Ddeddf Gorfodaeth Filwrol (1916).

**Geiriau a themâu allweddol:**
Gweithredu ar dir egwyddor, y canlyniadau i bobol eraill; ffyrdd o gael gan bobol gydymffurfio – gorfodaeth; propaganda – a'i ddylanwad; grym symbolau; modelau rôl: awdurdod a'r hawl i beidio â chydymffurfio.

**Cyn gwylio'r ffilm:**

- Trafodaeth: 'Fel arfer mae rheolau yno am reswm – ond beth wnaech chi petaech chi'n meddwl bod rheol yn gwbl gyfeiliornus? Ydi anufuddhau weithiau'n iawn?

**Cwestiynau i'w trafod:**

- Beth oedd canlyniadau penderfyniad tad Donald – iddo ef ei hun ac i eraill yn ei deulu? Pam ymatebodd pobol i Donald a'i deulu fel y gwnaethon nhw?
- Dychmygwch sut roedd Donald a'i deulu yn teimlo (er enghraifft pan fyddai ei ffrindiau ysgol yn sôn am eu tadau'n ymladd ar y Ffrynt neu pan fyddai pobol yn poeri at ei fam ar y stryd).
- Câi'r bluen wen ei defnyddio'n symbol llyfrdra. Sut deimlad, meddech chi, oedd derbyn hon? Pa dactegau eraill gâi eu defnyddio i 'gosbi' tad Donald a'i deulu?
- Allwch chi feddwl am symbolau eraill sy'n cael eu defnyddio'n negyddol? Beth am symbolau cadarnhaol – e.e. yn cynrychioli heddwch. Ydi'r rhain yn effeithiol?
- Ar gyfer CA3: a ddylai fod gan bobol yr hawl i wrthod ymladd mewn ymryson arfog, wedi'i seilio ar argyhoeddiadau crefyddol neu foesol didwyll? Oes yna unrhyw amgylchiadau pan ddylid gwrthod yr hawl yma?
- Yn ôl dihareb Tsieineaidd "*Mae esiampl bersonol yn cyfrif mwy na phregethu*". Beth ydi ystyr hyn? Yn eich profiad chi, ydi hyn yn wir?

**Gweithgareddau dilynol:**

- Dychmygwch eich bod chi'n byw'r drws nesaf i deulu Donald. Sut y byddech chi'n teimlo a beth fyddech chi'n ei wneud? Actiwch yr olygfa.
- Gwnewch eich symbol eich hun yn cynrychioli beth rydych chi'n credu ynddo.
- Ar gyfer CA3: roedd tad Donald yn credu'n angerddol fod lladd bod dynol arall yn beth drwg. Dychmygwch beth ddwedodd wrth y llys milwrol, a sut yr ymatebodd y rheini oedd yn llywyddu'r llys, o gofio'r pwysau arnyn nhw i recriwtio dynion i'r Ffrynt. Sgrifennwch / actiwch yr olygfa yma.

**Cysylltau ag adnoddau pellach:**

- Mae rhagor o wybodaeth am Wrthwynebwyr Cydwybodol yn y Rhyfel Byd Cyntaf i'w chael yma: [www.ppu.org.uk/learn/infodocs/cos/st_co_wwone.html](http://www.ppu.org.uk/learn/infodocs/cos/st_co_wwone.html)
- Mae gwybodaeth am symbolau heddwch i'w chael yma: [www.salsa.net/peace/symbol/](http://www.salsa.net/peace/symbol/)